# PWYLLGOR CRAFFU TAI A CHYMUNEDAU DIOGEL

Cofnodion cyfarfod o Bell a gynhaliwyd ar 9 Hydref, 2024.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd A.M. Collins (Cadeirydd); Cynghorydd B. Loveluck-Edwards (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, S.J. Haines, S.M. Hanks, W.A. Hennessy, M.J.G. Morgan a H.M. Payne.

Hefyd yn bresennol: C. Ireland (Cyngor ar Bopeth Caerdydd a'r Fro); G. Doyle a V. John (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolwyr Panel) a'r Cynghorwyr A. Asbrey, H.C. Hamilton, E. Williams (Aelod Cabinet dros Gofal Cymdeithasol ac Iechyd) a M.R. Wilson (Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdogaeth ac Adeiladu).

464 CYHOEDDIAD –

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol".

465 YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Y Cynghorydd S. Lloyd-Selby a D. Dutch (Gweithgor Tenantiaid / Cynrychiolwyr Panel).

466 COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Medi, 2024 fel cofnod cywir.

467 DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

468 GWASANAETH CYFIAWNDER IEUENCTID A CHYMORTH CYNNAR: ADRODDIAD PERFFORMIAD DIWEDD BLWYDDYN (CGC) –

Gan nad oedd swyddogion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar yn gallu bod yn bresennol yn y cyfarfod, dywedodd y Pwyllgor Craffu

ARGYMHELLWYD – GOHIRIO'r eitem hon tan y cyfarfod addas nesaf o'r Pwyllgor.

Rheswm dros yr argymhelliad

Er mwyn i swyddogion y Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid a Chymorth Cynnar fynychu'r cyfarfod a chyflwyno'r adroddiad.

469 TRACIO ARGYMHELLION CHWARTER 1AF AC 2IL 2024/25 AC ATODLEN DIWEDDARU RHAGLEN GWAITH CYCHWYNNOL Y PWYLLGOR 2024/25 (CAC) –

Cyflwynodd y Swyddog Gwasanaethau Democrataidd a Chraffu yr adroddiad a oedd yn hysbysu Aelodau o gynnydd mewn perthynas ag argymhellion hanesyddol y Pwyllgor Craffu ac Amserlen y flaenraglen waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2024/25.

Wedi'u cynnwys ynghyd â'r adroddiad mae'r atodiadau canlynol:

- Olrhain Argymhellion 2019-20 (Atodiad A);
- Olrhain Argymhellion 2021-22 (Atodiad B);
- Olrhain Argymhellion Chwarter 4, mis Ionawr i fis Mawrth 2024 (Atodiad C);
- Olrhain Argymhellion Chwarter 1, mis Ebrill i fis Mehefin 2024 (Atodiad D);
- Olrhain Argymhellion Chwarter 2, mis Gorffennaf i fis Medi 2024 (Atodiad E);
- Amserlen Blaenraglen Waith wedi'i diweddaru ar gyfer 2024/25 (Atodiad F).

Rhoddodd y Swyddog wybod am y canlynol fel y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor:

- Byddai'r Comisiynydd Heddlu a Throseddu newydd yn dod i gyfarfod Pwyllgor sydd ar ddod er mwyn rhoi cyflwyniad i'r Aelodau ynghylch ei blaenoriaethau ar gyfer ei rôl a sut y byddai hyn yn effeithio ar Fro Morgannwg. Mae hyn wedi'i drefnu am y tro ar gyfer cyfarfod fis Tachwedd 2024.
- Mae ymweliad arfaethedig y Pwyllgor â Banc Bwyd y Fro bellach wedi'i drefnu ar gyfer dydd Iau, 17 Hydref 2024.

Dywedodd y Pennaeth Tai a Gwasanaethau Adeiladau y canlynol:

- Roedd diweddariad ynglŷn â dewis safle ar gyfer Cymuned Sipsiwn a Theithwyr i fod i ddod i'r Pwyllgor yn fuan, a gobeithio cyn y Nadolig.
- Byddai'r Polisi Datblygu a Chaffael Tai presennol yn cael ei ddiwygio i gynnwys argymhelliad y Pwyllgor y dylid rhoi gwybod i'r Pwyllgor am gaffaeliadau eiddo ar raddfa fwy yn uniongyrchol cyn caffael, er mwyn ymgynghori a'u hystyried, ac yr ymgynghorir ag aelodau'r ward ar gyfer eiddo unigol sy'n cael eu caffael i gynyddu stoc tai cymdeithasol y Cyngor. Byddai'r Polisi diwygiedig yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet cyn dod i'r Pwyllgor i'w ystyried ar yr adeg briodol.

ARGYMHELLWYD –

(1) Cytuno ar statws y camau gweithredu a restrir yn Atodiad A i E yr adroddiad.

(2) Nodi bod y ddau argymhelliad hanesyddol parhaus ynghylch adroddiad sy'n nodi datrysiad tai priodol i'r gymuned Teithiwr, ac ymgysylltiad y gwasanaeth CAACD â grwpiau cymorth sy'n ymwneud â cham-drin domestig, wedi'u cwblhau at ddibenion dogfen olrhain argymhellion y Pwyllgor, ac fel arall bod y Swyddogion perthnasol yn darparu diweddariadau i'r Pwyllgor, lle bo hynny'n briodol.

(3) Cymeradwyo'r Amserlen Blaenraglen Waith ddiwygiedig ar gyfer 2024/25 sydd ynghlwm yn Atodiad F i'r adroddiad a'i lanlwytho i wefan y Cyngor.

(4) Bod Swyddogion ac Aelodau yn ystyried gweithgareddau hyrwyddo ychwanegol, er enghraifft drwy'r cyfryngau cymdeithasol, i godi ymwybyddiaeth o'r cyfleoedd i ymgysylltu â'r cyhoedd â chraffu, ac yn enwedig swyddogaeth awgrymiadau cyhoeddus ar y pynciau y mae Pwyllgorau Craffu yn mynd i'r afael â nhw, ac y dylid trafod y mater hwn yng Ngrŵp Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion y Pwyllgorau Craffu.

Rhesymau dros yr argymhellion

(1) Rhoi sylw i gynnwys yr adroddiad, a chynnal tracio effeithiol o argymhellion y Pwyllgor.

(2) Ystyried cynnwys yr adroddiad a thrafodaethau yn y cyfarfod.

(3&4) At ddibenion gwybodaeth ac ymgysylltu â'r cyhoedd.